

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2017.

Yn Bresennol:

Ann Evans, Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Robert Lloyd Griffiths, Ellen Donovan, Rheon Tomos, Arun Midha, Alun Llwyd, Caroline Burt, Claire Morgan, David Jones

Hefyd yn y Cyfarfod:

Helen Bushell (HB), Alison Standfast (AS), Jo Richards (JR), Cassy Taylor (CT) – eitem 5, Kerry Price (KP) – eitem 6, Emyr George (EG), Catrin Verrall (CV), Tom Anderson (TA) a Kerry Jones (KJ) – eitem 8, Alison Rees (AR) – Llywodraeth Cymru.

Ymddiheuriadau:

Dd/G

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant; cafwyd un datganiad newydd fel a ganlyn:
 - roedd Alun Llwyd wedi'i benodi'n Swyddog Proffesiynol CYDAG (rôl rhan amser).
- 1.3. Nododd nifer o aelodau hefyd fod ganddynt fuddiant yn eitem 9 ar yr agenda (adolygiad o Fagloriaeth Cymru) am fod ganddynt blant neu berthnasau agos o fewn y system addysg.
- 1.4. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw beth yr hoffent ei drafod yn deillio o'r papurau gwybodaeth. Ychwanegwyd adroddiad Sgiliau Hanfodol Cymru a'r papur diweddar ar ymchwil at yr agenda a nododd y Cadeirydd y câi'r eitemau hyn eu trafod ar ôl eitem 9.
- 1.5. Cafodd yr holl bapurau gwybodaeth eraill eu nodi (adroddiad ar gynllun gweithredol chwarter 2, trosolwg o'r gyfres arholiadau, rhagolwg y Bwrdd, cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 3 Gorffennaf 2017, cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio ar 19 Mehefin 2017, cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 11 Gorffennaf 2017).

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2017 a'r Materion sy'n Codi

- 2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau teipograffyddol. Cytunodd y Bwrdd nad oedd angen golygu cynnwys eitem 6 (adolygiad o'r Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig). Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu.

- 2.2. Bwridd y Bwrdd olwg dros y cofnod o gamau gweithredu a oedd wedi'i ddiweddarau i gynnwys cynnydd.

Materion sy'n Codi

- 2.3. Nododd IN ei bod wedi mynd i gynhadledd IAEA lle cafwyd cyflwyniad ar waith ymchwil Cymwysterau Cymru i Gofrestriadau Cynnar. Nododd IN fod Rachael Sperring wedi cyflwyno'r wybodaeth yn dda iawn a bod Cymwysterau Cymru wedi cael ei gynrychioli'n dda.
- 2.4. Rhoddodd HB y newyddion diweddaraf am ymgynghoriad arfaethedig Llywodraeth Cymru ar Gosbau Ariannol (er mwyn pennu'r ddirwy uchaf bosibl y gallai Cymwysterau Cymru ei rhoi i Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig). Cafodd HB gadarnhad gan yr Uned Nawdd y câi'r ymgynghoriad ei lansio cyn diwedd mis Tachwedd ac, felly, y byddai'n fyw ar yr un pryd ag ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar bolisiau gorfodi. Nododd IN fod angen cynllun wrth gefn pe bai'r naill ymgynghoriad neu'r llall yn profi oedi a dywedodd y dylai'r Pwyllgor Rheoleiddio gael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd.
- 2.5. Nid oedd materion eraill yn codi.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gyda mân newidiadau wedi'u nodi.
- ii. Nododd y Bwrdd y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a'r rhai a oedd wedi'u cwblhau.

3. Y diweddaraf gan y Cadeirydd

- 3.1. Rhoddodd y Cadeirydd (AE) y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol i'r Bwrdd.
- 3.2. Roedd AE a PB wedi cyfarfod â'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James. Cyfarfod rhagarweiniol oedd hwn a bu'n ddefnyddiol iawn.
- 3.3. Roedd AE a PB wedi mynd i ddigwyddiad lansio Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl.
- 3.4. Roedd AE wedi cyfarfod â Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru, gan gynnal yr amserlen gyfarfodydd chwarterol. Yn ystod y cyfarfod diwethaf, trafodwyd penodiadau'r Bwrdd a'r angen i sicrhau bod unrhyw newidiadau o fewn y Bwrdd yn cael eu rheoli'n briodol. Yn 2018, bydd cyfnodau cychwynol wyth o aelodau'r Bwrdd yn dod i ben, am y cafodd y Bwrdd ei sefydlu gyntaf yn 2015. Roedd parhad y Bwrdd a rheoli newid yn bwysig, a nododd AE ei bod yn awyddus i wasgaru penodiadau ac y byddai'n trafod hyn ag aelodau unigol ar ddechrau 2018.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cafodd newyddion diweddaraf y Cadeirydd ei nodi gan y Bwrdd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1. Cafwyd adroddiad llafar gan Philip Blaker (PB) y gellir ei grynhoi fel a ganlyn:
- 4.2. Comisiynu Iechyd a Gofal Cymdeithasol – dywedodd PB fod y gwaith datblygu yn mynd rhagddo'n dda ar ôl penodi Consortiwm CBAC a City and Guilds. Caiff y gwaith datblygu ei wneud mewn camau ac mae cynlluniau manwl ar waith i ymgysylltu ynghylch meini prawf cymeradwyo. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru a Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu y GIG yn chwarae rôl agos.
- 4.3. Cofrestriadau Cynnar – dywedodd PB, ers cyhoeddi ein hadroddiad a'n datganiad sefyllfa a'r penderfyniad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet, nad oes unrhyw faterion mawr wedi codi i Cymwysterau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i nifer fawr o ymholiadau a godwyd gan Benaethiaid ynghylch materion ymarferol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau i fesurau perfformiad ac amseriad y newidiadau hynny.
- 4.4. Prosiect Data – cadarnhaodd PB y byddai'r sefydliad yn casglu ei ddata cyntaf ar gymwysterau cyffredinol gan gyrff dyfarnu ym mis Tachwedd. Mae cyrff dyfarnu wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar dempledi ac mae'r sefydliad yn ystyried y ffafriaeth a fynegwyd dros ddefnyddio templedi Ofqual (templedi wedi'u dadgyfuno).
- 4.5. TGAU Seicoleg – cadarnhaodd PB fod Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch pam nad yw'r cymhwyster TGAU Seicoleg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn ei alluogi i ystyried cais am drafodaeth. Nododd PB fod ymateb terfynol newydd ddod i law gan Pearson yn datgan na fyddai'n cynnig y cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â CBAC er mwyn archwilio'r opsiwn iddynt ailystyried cynnig y cymhwyster. Nododd PB, pe bai angen cymwysterau newydd ar gyfer y cwricwlwm newydd, y dylai fod yn bosibl i'w gwneud yn ofynnol i bynciau sy'n denu llai o ymgeiswyr gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r broses gomisiynu. Ailgadarnhaodd y Bwrdd ei farn flaenorol, sef ei bod yn bwysig bod cymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â hyn.
- 4.6. Ymgynghoriad ar Bolisiâu Gorfodi – cadarnhaodd PB fod yr ymgynghoriad hwn wedi cael ei gyhoeddi ond bod y polisi ar Amodau Trosglwyddo wedi cael ei dynnu o'r ymgynghoriad gan fod angen ei ddatblygu ymhellach. Byddai'r polisi yn dychwelyd i'r Bwrdd yn nes ymlaen i'w ystyried.
- 4.7. Y diweddaraf am staffio – cadarnhaodd PB y byddai dwy swydd newydd yn cael eu hychwanegu at y tîm staff yn dilyn yr adolygiad gweithredol. Byddai un swydd yn cefnogi'r tîm cymwysterau galwedigaethol ac un swydd cyfnod penodol yn canolbwyntio ar ymgysylltu ag Addysg Uwch. Roedd y ddwy swydd yn cyd-fynd â maint cymeradwy'r sefydliad a chadarnhawyd eu bod o fewn y gyllideb hefyd.

Roedd cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â rôl y Cyfarwyddwr Cyswllt (Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol) ac roedd disgwyl penodi unigolyn i'r rôl hon erbyn diwedd mis Rhagfyr.

Cam gweithredu – HB i roi copi i'r Bwrdd o'r hysbyseb ar gyfer rôl y Cyfarwyddwr Cyswllt.

- 4.8. Arolwg staff – roedd yr arolwg newydd ddod i ben gyda chyfradd gwblhau o 94%. Roedd disgwyl y canlyniadau cychwynnol ddechrau mis Tachwedd a byddent yn rhan o'r Diwrnod Datblygu Staff ar ddiwedd mis Tachwedd.
- 4.9. Gwerthoedd y sefydliad – lanswyd y pedwar gwerth newydd ar 24 Hydref ac fe'u croesawyd gan staff.
- 4.10. Cytundeb cyflog staff – dywedodd PB fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig cytundeb cyflog dwy flynedd i'w staff. Mae'n bolisi gan Cymwysterau Cymru i gyd-fynd â graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Roedd Cymwysterau Cymru wrthi'n ymgynghori â changen undeb Cymwysterau Cymru. Cadarnhaodd PB fod y cytundeb cyflog o fewn y gyllideb ddynodedig. Nid oedd y cytundeb cyflog hwn yn cynnwys cyflogau gweithredol a byddai'r rhain yn cael eu hystyried ar wahân gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Nododd y Bwrdd bryder na fyddai rhai aelodau o staff yn cael codiad cyflog (ar wahân i'w cynyddran) gan mai dim ond y band uchaf sy'n cynyddu o dan y cytundeb cyflog hwn. Nododd PB y pryder ond dywedodd fod y rhan fwyaf o staff yn perthyn i'r band uchaf. Cadarnhaodd AS fod y cytundeb yn cyd-fynd â'r hyn yr oedd yr Undebau Llafur wedi gofyn amdano gan Lywodraeth Cymru.
- 4.11. Monitro Cymorth Cyntaf – cadarnhaodd Jo Richards (JR) fod yr holl lythyrau wedi'u hanfon at y Cyrff Dyfarnu perthnasol a bod yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol hyd yma. Diolchodd y Bwrdd i JR a'i thîm am gynnal ymarfer cymesur a'i reoli'n dda.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nodi adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol – WEDI'I NODI

5. Adolygiad Sector: Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (AAA)

- 5.1. Ymunodd Cassy Taylor (CT) â'r cyfarfod a chyflwynodd bapur yn crynhoi canfyddiadau'r adolygiad o'r sector AAA a'r cynigion gweithredu sy'n cael eu gwneud. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r camau gweithredu byrdymor arfaethedig a chymeradwyo'r cynnig i gyhoeddi ymgynghoriad ar yr un pryd â chyhoeddi'r canfyddiadau – gan ymgynghori ar opsiynau i ddiwygio cymwysterau yn y sector hwnnw yn y tymor hwy, a rhoi opsiynau dewisol y sefydliad.
- 5.2. Diolchodd y Bwrdd i CT am bapur ardderchog a chydabuwyd bod y pwnc yn un cymhleth. Roedd pum prif faes i'w hystyried o fewn y papur ac edrychodd y Bwrdd ar y rhain yn eu tro:

- I. Canfyddiadau – atgoffodd CR yr aelodau o'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn flaenorol.
- II. Cam 1 – eglurodd CT fod yr adran hon yn cynnwys camau gweithredu byrdymor a gynlluniwyd i fynd i'r afael, i'r graddau sy'n bosibl, â'r problemau a nodwyd gyda chymwysterau presennol yn yr adolygiad. Cytunwyd y dylid cymryd y camau gweithredu hyn a chydabuwyd bod y rhain yn annhebygol o ddatrys y problemau'n llwyr heb Gam 2 (diwygio).
- III. Cam 2 – adran A: Roedd hwn yn ymwneud â chymwysterau a gaiff eu hastudio mewn ysgolion. Nododd CT fod cymwysterau presennol wedi datblygu ond y gallai datblygiadau polisi yn Lloegr beryglu hyfywedd cymwysterau sydd, fel arall, yn boblogaidd iawn. Nodwyd y byddai cyfyngu ar gymwysterau yn y rhan hon o'r sector yn gwneud y farchnad yng Nghymru yn hyfyw yn annibynnol ar Loegr. Gellid cyfyngu ar y cymwysterau hyn yng Nghymru drwy gyhoeddi meini prawf cymeradwyo ac ymateb gan y farchnad, gan ddewis o blith cymwysterau presennol neu gomisiynu rhai newydd. Nododd CT hefyd y risgiau i gymwysterau galwedigaethol os nad yw'r cwricwlwm newydd yn caniatáu digon o le i astudio pynciau o'r fath. Trafododd aelodau'r Bwrdd y materion a chytunodd pawb mai A2 oedd yr opsiwn dewisol.
- IV. Cam 2 – Adran B: Roedd hwn yn ymwneud â chymwysterau a gaiff eu hastudio o fewn Addysg Bellach. Eglurodd CT y byddai dau lwybr dilyniant cyfocrog yn Lloegr – lefelau T a phrentisiaethau. Nododd ein canfyddiadau ffafriaeth dros lwybr unigol a allai ddechrau o fewn Addysg Bellach a symud ymlaen i brentisiaeth neu a ddilynir yn gyfan gwbl drwy brentisiaeth. Holodd y Bwrdd am broblemau o ran cludadwyedd pe bai gan Gymru drefniadau gwahanol i Loegr. Cafwyd sicrwydd gan CT a chadarnhaodd fod CITB yn cefnogi ein cynigion ar lefel y DU a bod grŵp Cymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain (BACH) yng Nghymru wedi darparu llythyr o gefnogaeth. Roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ein cynigion hefyd. Cytunodd y Bwrdd mai B2 oedd yr opsiwn dewisol, ond nododd y materion ehangach hefyd. Gofynnwyd i'r ymgynghoriad egluro y byddai cymhwyster newydd Cymru yn gymaradwy â lefelau T yn Lloegr.
- V. Cam 2 – adran C: Roedd hwn yn ymwneud â Phrentisiaethau. Eglurodd CT fod llawer o wahanol brentisiaethau ar gyfer gwahanol 'grefftau' arbenigol yn cael eu datblygu gan wahanol gyflogwyr arloesol yn Lloegr, ac nad oedd fawr ddim yn gyffredin rhyngddynt. Y cynnig ar gyfer Cymru yw y dylai un cymhwyster gael ei ddefnyddio ym mhob prentisiaeth gyda chraidd cyffredinol ac elfennau arbenigol ar gyfer crefftau gwahanol a asesir gan gyfeirio at y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC). Byddai gwybodaeth (sydd hefyd yn gysylltiedig â'r SGC) yn cael ei phrofi gan ddefnyddio cronfa o gwestiynau a fyddai'n cael ei haddasu yn ôl y grefft. Byddai rôl y porth cyflogwr yn cael ei hatgyfnerthu. Byddai prosiect yn rhan

graidd o'r asesiad. Nododd y Bwrdd y byddai'r cynllun yn fwy hyblyg ac yn fwy addas i'r dyfodol. Cytunodd y Bwrdd mai C2 oedd yr opsiwn dewisol.

- 5.3 Holodd y Bwrdd am y capasiti i wneud y diwygiadau. Cadarnhaodd PB fod capasiti i wneud y diwygiadau AAA a chwblhau'r adolygiad TGCh. Fodd bynnag, cynigiwyd y dylid gohirio'r adolygiad Peirianeg Uwch am chwe mis. Cytunodd y Bwrdd a nodwyd y gallai fod angen canolbwyntio ar ansawdd trefniadau asesu yn gyffredinol yn hytrach nag fel mater pwnc-benodol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i) Cytunodd y Bwrdd y dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi gydag ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer diwygio, gan nodi mai ein hopsiynau dewisol yw Cam 1 gyda Cham 2 i ddilyn – opsiynau A2, B2, C2.
- ii) Nododd y Bwrdd y materion ehangach y mae'n rhaid eu cadw mewn cof – gan gynnwys datblygiadau yn Lloegr, cludadwyedd a buddiannau dysgwyr, disgwyliadau mewn perthynas â sectorau eraill a chydraddoldeb cymwysterau galwedigaethol o fewn y cwricwlwm.

6. Adroddiad Ariannol 2017/18 gan gynnwys y cynllun ariannol tymor canolig

- 6.1. Ymunodd KP â'r cyfarfod a chyflwynodd y papur, a roddodd ddiweddariad ariannol hyd at ddiwedd mis Medi 2017. Cafodd y sefyllfa ariannol ei hystyried yn fanwl gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Adnoddau ym mis Hydref. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd wedi ystyried y broses o adolygu'r gyllideb a'r model cynllunio ariannol tymor canolig ym mis Hydref.

Adroddiad ariannol 2017/18

- 6.2. Trafododd KP tabl 1 ar dudalen 4 a oedd yn crynhoi'r proffil cyllidebol yn erbyn gwariant gwirioneddol. Roedd £93k o amrywiant yn y rhagolygon alldro, am y rhesymau a ddarperir yn y tabl. Nododd KP yn benodol fod rhagolygon alldro'r gyllideb grantiau yn uwch yn dilyn penderfyniad bwriadol i gefnogi lefel uwch o grantiau cyfrwng Cymraeg. Roedd amrywiant uwch i'w weld hefyd yng nghyllideb Rhaglen y Swyddog Cyfrifyddu o gymharu â meysydd cyllidebol eraill am fod y llinell gyllidebol hon wedi'i chynllunio i ddal ymrwymadau cyllidebol nas cadarnhawyd at ddibenion tryloywder a gwaith craffu parhaus. Ar dudalen 5, roedd crynodeb o wariant disgwylidig yn erbyn cyllideb Rhaglen y Swyddog Cyfrifyddu.
- 6.3. Trafododd y Bwrdd y papur a nododd yr adborth gan aelodau o'r Pwyllgor Adnoddau fod trafodaeth fanwl wedi'i chynnal mewn perthynas â'r adroddiad ariannol a'r risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ef. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau am y rhesymau dros amrywiadau mewn proffiliau misol.
- 6.4. Cadarnhaodd KP na fyddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn yn 2017/18 a chynigiodd y dylid defnyddio'r gronfa wrth gefn i gefnogi'r cynllun tymor canolig.

Cadarnhaodd KP fod Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r dull gweithredu hwn a chytunodd y Bwrdd â'r argymhelliad.

- 6.5. Trafododd y Bwrdd y rhagolwg alldro presennol a nododd fod yn rhaid i'r sefydliad roi rhagamcan o'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr. Yn anochel, roedd y sefyllfa bresennol yn cynnwys tybiaethau a gaiff eu cadarnhau yn ystod y misoedd i ddod, ac mae'n debygol y bydd y rhagolwg alldro yn gostwng ymhellach. Gan na fyddai cyfle i aelodau'r Bwrdd adolygu'r sefyllfa newidiol hon cyn i'r rhagolwg gael ei gyflwyno, cytunwyd y dylid awdurdodi'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd i gyflwyno'r rhagolwg diwygiedig i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017 ar yr amod nad oes unrhyw newidiadau sylweddol.

Cam gweithredu – HB i roi diweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa alldro a rennir â Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr.

Cynllun ariannol tymor canolig

- 6.6. Cyflwynodd KP y fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun ariannol tymor canolig a oedd yn adlewyrchu'r tybiaethau diweddaraf hyd at 2020/21. Roedd y cynllun hefyd yn ymdrin ag effaith cynnydd tebygol yn y bil cyflogau dros y cyfnod hwn.
- 6.7. Nododd KP fod angen mwy o amser i ystyried y goblygiadau o ran adnoddau fyddai'n deillio o'r diwygiadau i gymwysterau yn sgil y cwricwlwm cenedlaethol newydd a bod amser wedi'i neilltuo yn ystod diwrnod y Bwrdd ym mis Mai 2018 i wneud hyn.
- 6.8. Nododd KP fod y Bwrdd Rheoli wedi nodi meysydd lle gellid gwneud arbedion pe bai angen lleihau costau a bod y Pwyllgor Adnoddau wedi trafod y rhain.
- 6.9. Gofynnodd y Bwrdd a oedd cytundeb cyflog newydd 2017-2019 wedi'i ystyried yn y cynllun a chadarnhaodd KP fod hynny wedi digwydd.
- 6.10. Cadarnhaodd KP fod cyllideb ddisgwyliedig Cymwysterau Cymru o £8.042m wedi'i chadarnhau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 24 Hydref, fel cynnig pendant ar gyfer 2018-19 a chynnig dangosol ar gyfer 2019-20.
- 6.11. Trafododd y Bwrdd y cynllun ariannol tymor canolig a diolchodd i KP am ei waith yn ei lunio. Nododd y Bwrdd y byddai angen arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i wneud diwygiadau i gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cafodd y rhagolwg alldro canol blwyddyn ei nodi gan y Bwrdd;
- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd y diwygiadau i'r gyllideb i leihau'r gofyniad cyllidebol cyffredinol i £8.042m a defnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi'r cynllun tymor canolig;

- iii. Awdurdododd y Bwrdd y Prif Weithredwr i roi rhagolwg alldro diwygiedig i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017;
- iv. Nododd y Bwrdd Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2018-19 i 2020-21, a'r gwaith pellach i'w wneud dros y 6 i 9 mis nesaf gan nodi'r angen am arian ychwanegol i wneud diwygiadau i gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm.

7. Rheoli Risg a'r Awydd i Fentro

- 7.1. Cyflwynodd HB yr adroddiad gan nodi bod dwy brif ran; yr adroddiad rheoli risg ac adolygiad o'r awydd i fentro.
- 7.2. Adolygodd y Bwrdd yr adroddiad rheoli risg a ategwyd gan gofrestr risg (corfforaethol a rheoleiddiol) y sefydliad a'r adroddiad cryno.
- 7.3. Trafododd y Bwrdd risgiau penodol, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni'r cynllun gweithredol a'r polisi yn Lloegr mewn perthynas â lefelau T a phrentisiaethau. O safbwynt y sgoriau risg, gofynnodd y Bwrdd a oedd hi'n bryd lleihau sgôr weddilliol y risg mewn perthynas â grantiau, o gofio'r amrywiadau i'r proffil. Cytunodd AS i adolygu sgôr y risg gyda'r tîm.
- 7.4. O safbwynt risgiau yn ymwneud â pholisi Lloegr ar lefelau T a phrentisiaethau, rhoddodd PB sicwydd i'r Bwrdd bod trefniadau cyfathrebu priodol ar waith â chydweithwyr yn yr Adran Addysg ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd.
- 7.5. Adolygodd y Bwrdd y ddogfen ar yr awydd i fentro gan nodi bod y tîm Gweithredol wedi cynnal adolygiad cychwynol a bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi ystyried yr adolygiad yn ei gyfarfod ym mis Hydref. Nododd y Bwrdd yr ychwanegiadau arfaethedig at y ddogfen ar yr awydd i fentro (mewn perthynas â'r gweithlu a data personol) a'r newidiadau i'r maes presennol o fewn y risgiau system a reoleiddir. Trafododd y Bwrdd y ddogfen ar yr awydd i fentro a phenderfynodd ei fod yn hapus i gymeradwyo'r newidiadau.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd gofrestr risg ddiweddaraf y sefydliad a'r adroddiad risg lefel Bwrdd ategol. Cymeradwyodd y Bwrdd y ddogfen ddiwygiedig ar yr awydd i fentro.

8. Strategaeth

Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol

- 8.1. Cyflwynodd AS y Cynllun Strategol drafft ar gyfer Gallu Corfforaethol, sef un o'r tri chynllun sy'n ategu strategaeth gyffredinol Cymwysterau Cymru (ar y cyd â chymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol). Rhoddodd AS

drosolwg o'r cynnwys gan egluro bod y defnydd a wneir o feysydd ffocws a heriau yn dilyn y fformat corfforaethol y cytunwyd arno.

8.2. Trafododd y Bwrdd y cynllun ac awgrymodd rai cyfeiriadau ychwanegol at y canlynol:

- tryloywder
- gwaith digidol
- pwyslais ar ddysgu a datblygu i staff
- egwyddorion Nolan
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

8.3. Awgrymodd y Bwrdd y dylid diwygio'r cyfnod a gwmpesir hefyd a gwnaeth rai awgrymiadau fformatio. Dywedodd y Bwrdd y dylai'r awgrymiadau gael eu hystyried ond cymeradwyodd y ddogfen i'w chyhoeddi ar-lein.

Strategaeth Cymwysterau Cymru

8.4. Cyflwynodd PB strategaeth Cymwysterau Cymru a oedd yn cynnwys newidiadau a wnaed yn dilyn adolygiad y Bwrdd yn ystod ei ddiwrnod datblygu ym mis Medi. Ystyriodd y Bwrdd y ddogfen a gwnaeth y sylwadau canlynol:

- Nid oedd y cymhelliad i'r sefydliad wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn amlwg;
- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol ailgynllunio'r adran ar yr arddull rheoleiddio;
- Gallai'r cyfeiriad at safonau fod yn fwy penodol;

8.5. Cytunodd PB i adolygu'r pwyntiau uchod ynghyd â mân newidiadau drafftio eraill.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Cymwysterau Cymru a'r Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol ar yr amod bod mân ddiwygiadau yn cael eu gwneud fel y crynhoir uchod.

Sesiwn allanol – Ymddiriedolaeth Ambiwylans Cymru

Croesawodd y Cadeirydd Brif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Ambiwylans Cymru i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu hamser. Cafwyd cyflwyniad yn amlinellu taith yr Ymddiriedolaeth dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â'i dull gweithredu o safbwynt datblygu'r sefydliad, diwylliant a phobl. Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymddiriedolaeth am gyflwyniad diddorol ac addysgiadol.

9. Adolygiad Bagloriaeth Cymru

9.1. Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Emyr George (EG) am yr adolygiad hwn, a gynhaliwyd gan Wavehill ar y cyd â Sefydliad Addysg, Coleg Prifysgol Llundain. Roedd ei gydweithwyr Catrin Verrall (CV), Tom Anderson (TA) a Kerry Jones (KJ) yn bresennol hefyd. Nododd EG fod y canfyddiadau'n gytbwys iawn, ond bod

pryderon, pe bai rhannau o'r adroddiad yn cael eu darllen ar wahân, y gallai'r adroddiad ymddangos yn fwy beirniadol o'r cymhwyster nag y mae. Felly, roedd angen gwneud mwy o waith cyn ei gyhoeddi.

- 9.2. Nododd EG y byddai anghenion dysgwyr presennol yn cael eu cydbwysu ag anghenion dysgwyr yn y dyfodol wrth weithredu ar yr argymhellion. Nododd CV fod rhywfaint o waith ailgynllunio yn deillio o'r rhan fwyaf o adolygiadau manwl o gymwysterau ac y byddai angen ystyried newidiadau'n ofalus. Byddai gwaith uniongyrchol yn canolbwyntio ar gefnogaeth i ddarparu'r Dystysgrif Her Sgiliau bresennol.
- 9.3. Argymhellodd y Bwrdd y dylai'r adroddiad nodi'n glir i ba sefydliad yr oedd pob argymhelliad yn berthnasol a nododd y byddai'r gweithgor arfaethedig yn gallu ystyried pwy ddylai arwain pob cam gweithredu y cytunwyd arno. Trafododd y Bwrdd yr angen i ystyried hydrinedd mewn ysgolion yn ofalus hefyd.
- 9.4. Diolchodd y Bwrdd i EG, CV, TA a KJ am y diweddariad, nododd y canfyddiadau allweddol a chymeradwyodd y dull arfaethedig i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd ganfyddiadau allweddol ac argymhellion yr adroddiad ymchwil.
- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd y dull arfaethedig i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Papur gwybodaeth – Adolygiad o Sgiliau Hanfodol Cymru

- i. Cafwyd cais gan y Bwrdd i'r adroddiad gwybodaeth ar Sgiliau Hanfodol Cymru gael ei gynnwys ar yr agenda ar y sail bod gan randdeiliaid ddisgwyliadau uchel mewn perthynas ag argymhellion yr adroddiad.
- ii. Eglurodd JR fod gan y cymhwyster presennol ddyddiad gorffen gweithredol o 2020 ac mai bwriad yr argymhellion yw delio â rhai materion penodol rhwng nawr a 2020. Bydd hi'n cymryd dwy flynedd i ddatblygu cymhwyster newydd ar gyfer 2020 ond roedd rhai camau gweithredu y gellid eu cymryd nawr i fynd i'r afael â materion presennol.
- iii. Trafododd y Bwrdd rai o argymhellion yr adroddiad a nododd y dull cyhoeddi arfaethedig ym mis Rhagfyr 2017. Yn dilyn trafodaeth, cafwyd cais gan y Bwrdd i sicrhau bod cwmpas a chylch gwaith y gwaith yn cael eu cadarnhau er mwyn rheoli disgwyliadau ynghylch diben yr adolygiad.
- iv. Cafwyd cais gan y Bwrdd hefyd am drafodaeth bellach ynghylch prentisiaethau yn gyffredinol yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

Cam gweithredu – HB i drefnu trafodaeth am brentisiaethau yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

Papur gwybodaeth – Papur ymchwil

- i. Cafwyd cais gan y Bwrdd i'r adroddiad gwybodaeth am ymchwil gael ei gynnwys ar yr agenda.
- ii. Holodd y Bwrdd am gynnydd mewn perthynas â sefydlu'r grŵp cyngori arfaethedig. Dywedodd TA fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i ddatblygu cylch gorchwyl drafft ar gyfer y grŵp a chytunodd fod angen rhywfaint o annibyniaeth i ystyried unrhyw faterion moesegol a allai godi o waith ymchwil a gynlluniwyd.
- iii. Gofynnodd y Bwrdd am fwy o wybodaeth am sut y caiff prosiectau ymchwil eu blaenoriaethu ac, yn bwysicach, beth a gaiff ei wrthod o'r rhaglen ymchwil.
- iv. Gofynnodd y Bwrdd am fwy o wybodaeth am yr ymchwiliad i ffioedd a gwasanaethau. Eglurodd TA y cymorth allanol a oedd yn cael ei gomisiynu ar gyfer y gwaith a chadarnhaodd y byddai'n eitem bwysig yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Rhagfyr.
- v. Awgrymodd y Bwrdd y gallai fod yn ddefnyddiol ystyried prosiect ymchwil yn y dyfodol am ddatblygiadau yn economi Cymru a goblygiadau posibl hyn i gymwysterau a'r system gymwysterau yn y dyfodol. Nododd TA hyn i'w ystyried.

10. Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru

- 10.1. Cyflwynodd AS a HB yr adroddiad blynyddol sy'n crynhoi gwaith a chyflawniadau'r sefydliad rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2017. Byddai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar yr adroddiad yn y Senedd ar 6 Rhagfyr 2017 fel sy'n ofynnol o dan ein deddfwriaeth.
- 10.2. Roedd rhai o aelodau'r Bwrdd wedi adolygu adrannau penodol o'r adroddiad yn ystod y cam datblygu ac roedd y Bwrdd wedi adolygu dyluniad y ddogfen yn ystod y cyfarfod diwethaf.
- 10.3. Ar ôl ei adolygu gan awgrymu rhai mân ddiwygiadau, cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad blynyddol a chytunodd y dylai mân ddiwygiadau ac, felly, y cam cymeradwyo terfynol gael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol a dirprwyodd y cam cymeradwyo terfynol i'r Prif Weithredwr.

11. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

- 11.1. Cyflwynodd HB y papur gan gadarnhau ei bod yn ofynnol o dan y gyfraith i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac mai dyma adroddiad cyntaf y sefydliad ar gynnydd yn erbyn ei amcanion cydraddoldeb strategol.
- 11.2. Eglurodd HB fod yr adroddiad ar y cam datblygu a gofynnodd i'r Bwrdd adolygu'r dull gweithredu arfaethedig ac, yn benodol, nodi'r adroddiad yn erbyn cynnydd ar gyfer y flwyddyn gyntaf (2016/17).
- 11.3. Trafododd y Bwrdd yr adroddiad a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd. Cytunodd y Bwrdd i roi adborth i HB yn electronig ynghylch unrhyw feysydd cynnwys penodol erbyn 3 Tachwedd.

Cam gweithredu – Aelodau'r Bwrdd i roi adborth electronig i HB mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb erbyn 3 Tachwedd 2017.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. adolygu a nodi cynnwys yr adolygiad blynyddol o amcanion cydraddoldeb;
- ii. cymeradwyo dull cyhoeddi arfaethedig yr adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb.

12 Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

- 12.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 20 Medi. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd cofnodion 19 Mehefin 2017 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 20 Medi yn ymwneud â monitro cymwysterau Cymorth Cyntaf, adroddiad Sgiliau Hanfodol Cymru, adroddiad Bagloriaeth Cymru a'r adolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi cynnal ei archwiliad o drefniadau llywodraethu.
- 12.2 Trafododd y Pwyllgor y polisi drafft ar Drosoglwyddo Amodau y tu allan i'r Pwyllgor a daeth i'r casgliad y dylid ailddrafftio'r polisi ac, felly, ei dynnu o'r ymgynghoriad arfaethedig ar bolisiau gorfodi ym mis Tachwedd 2017. Roedd y Bwrdd eisoes wedi nodi hyn yn adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor – WEDI'I NODI

13 Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau

- 13.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 18 Hydref. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd cofnodion 3 Gorffennaf 2017 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 18 Hydref yn ymwneud ag adolygiad manwl o bolisiau Adnoddau Dynol a'u cymeradwyo, diweddariad cyffredinol ar faterion Adnoddau Dynol, adolygiad manwl o gyllideb y sefydliad (fel y trafodwyd yn eitem 6) ac adolygiad o gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi cynnal ei archwiliad o drefniadau llywodraethu.
- 13.2 O safbwynt cyllid, ystyriodd y Pwyllgor y sefyllfa ariannol bresennol a'r rhagolwg diwedd blwyddyn a'r cynllun tymor canolig. Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, edrychodd y Pwyllgor yn fanwl ar y gwariant hyd yma a'r rhagolwg gwariant a gofynnodd gwestiynau a ganolbwyntiai ar wariant llai sicr.
- 13.3 Teimlai'r Pwyllgor fod ganddo ddealltwriaeth dda o sefyllfa 2017/18 a bod y perygl o danwariant yn cael ei reoli'n briodol.
- 13.4 Nododd y Pwyllgor newid i'r cynllun tymor canolig a thrafododd yr angen am adnoddau ychwanegol i helpu i ddatblygu cymwysterau yn sgil y cwricwlwm newydd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor – WEDI'I NODI

14 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

- 14.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 12 Hydref. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd cofnodion 11 Gorffennaf 2017 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 12 Hydref yn ymwneud â rheolaeth ariannol a datblygiadau o ran y cynllun ariannol tymor canolig, rheoli risg gan gynnwys adroddiad at wraidd y mater ar y prosiect Data, diogelwch TG a digwyddiad TG a gafodd ei reoli'n dda a'i ddatrys yn gyflym.
- 14.2 Adolygodd y Pwyllgor yr archwiliad mewnol o Gymeradwyaethau Cymwysterau, a gafodd radd sylweddol. Adolygodd gofnod camau gweithredu'r tîm archwilio mewnol hefyd. Cytunodd i drafod y gwaith ar reoli prosiectau yng nghyfarfod mis Chwefror 2018. Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad gwyradau caffael a nododd y cofnod gwyradau blynyddol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor – WEDI'I NODI

15 Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r Pwyllgor

- 15.1 Roedd tair eitem i'w nodi a gafodd eu rheoli y tu allan i'r Pwyllgor, fel a ganlyn.
- 15.2 **Cymorth contract QiW** – Gofynnwyd i'r Bwrdd, drwy e-bost ar 3 Hydref 2017, gymeradwyo'r gwariant mewn perthynas ag adnewyddu'r contract cymorth ar gyfer QiW (y gronfa ddata cymwysterau). Darparwyd gwybodaeth am y dull caffael arfaethedig. Cafwyd wyth ymateb gyda phob un ohonynt yn cefnogi'r ateb arfaethedig. Roedd aelodau'r Bwrdd wedi cyfrannu rhai safbwyntiau/sylwadau a gafodd eu crynhoi yn y papur a ddarparwyd i'r Bwrdd ynghyd ag ymateb gan staff Cymwysterau Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cafodd y cais i fynd ati i adnewyddu'r contract ei gymeradwyo y tu allan i'r Pwyllgor.
- 15.3 **Ymgynghoriad ar Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol** – Gofynnwyd i'r Bwrdd, drwy e-bost ar 5 Hydref 2017, gymeradwyo ymateb arfaethedig Cymwysterau Cymru i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r ateb drafft am fod yr ymgynghoriad o bwysigrwydd cenedlaethol. Roedd chwech ymateb wedi dod i law, ac roedd pob un ohonynt yn cefnogi'r ateb arfaethedig. Roedd aelodau'r Bwrdd wedi cyfrannu rhai safbwyntiau/sylwadau a gafodd eu crynhoi yn y papur a ddarparwyd i'r Bwrdd ynghyd ag ymateb gan staff Cymwysterau Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Diwygiwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Bwrdd y tu allan i'r Pwyllgor, ac fe'i hanfonwyd i Lywodraeth Cymru.
- 15.4 **Adroddiad ar Gofrestriadau Cynnar** – Cafodd papur QWBEXCSept17 ynghyd ag atodiadau 1 i 3 eu hystyried y tu allan i'r Pwyllgor yn ystod diwrnod datblygu'r Bwrdd ym mis Medi. Trafododd y Bwrdd y papurau yn fanwl yn ystod y sesiwn a gynhaliwyd y tu allan i'r Pwyllgor yng nghyd-destun canfyddiadau'r adroddiad ymchwil, y datganiad sefyllfa arfaethedig, y cyngor i Lywodraeth Cymru a'r trefniadau cymeradwyo ar gyfer y dogfennau terfynol.
- 15.5 Rhoddodd aelodau'r Bwrdd sylw arbennig i argymhellion yr adroddiad, gan gydnabod cyfyngiadau'r ymchwil ac ystyried yr effaith ar ysgolion, athrawon ac, yn bwysicach, ddysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid. Nododd y Bwrdd yr opsiynau a ystyriwyd gan swyddogion a rhoddodd yr aelodau eu barn ar y sefyllfa arfaethedig. Nid oedd pawb yn unfrydol, ond llwyddwyd i ddod i gonsensws.
- 15.6 Felly, ar ôl trafod yn ddwys, nododd y Bwrdd ganfyddiadau'r ymchwil, y datganiad sefyllfa arfaethedig a'r cyngor i Lywodraeth Cymru a chytunwyd ar y trefniadau cymeradwyo arfaethedig.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. NODODD y Bwrdd ganfyddiadau'r ymchwil, y datganiad sefyllfa arfaethedig, y cyngor i Lywodraeth Cymru a'r trefniadau cymeradwyo.

16 Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

- 16.1 Cadarnhaodd HB y calendr cyfarfodydd sydd ar waith hyd at fis Gorffennaf 2018 a nodwyd ar yr agenda. Mae cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu ar hyn o bryd. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24 Ionawr 2018.

17 Unrhyw Fater Arall

- 17.1 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fater arall. Ni chodwyd unrhyw faterion gan aelodau'r Bwrdd.
- 17.2 Nododd y Cadeirydd fod penodiadau saith o aelodau'r Bwrdd yn dod i ben yn 2018. Byddai trafodaethau unigol yn cael eu cynnal â'r aelodau Bwrdd perthnasol yn ystod y rownd nesaf o gyfarfodydd un i un gyda'r Cadeirydd ym mis Ionawr/Chwefror.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:20.

Diwedd